Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Bridgend County Borough Council

Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont, CF31 4WB / Civic Offices, Angel Street, Bridgend, CF31 4WB

At Rieni, Gofalwyr a Gwarcheidwaid disgyblion Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig; Pennaeth, Staff a Chorff Llywodraethu Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig, ymgynghoreion penodedig, ysgrifennydd Cymdeithas Rhandiroedd Pwllygath a'r Corfflu Hyfforddiant Awyr.

Uned Cymorth Cyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd (UCCACD)
Education and Family Support Directorate – Directorate Support Unit (EDSU)
Deialu uniongyrchol / Direct line: (01656) 643643

Ein cyf / Our ref: MCP
Eich cyf / Your ref: MCP

Dyddiad / Date: 15 Mehefin 2022

Annwyl Ymgynghorai

Cynnig i wneud newid wedi'i reoleiddio i addasu Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig drwy ei ehangu, a hynny ddechrau tymor yr hydref 2025:

- **codi adeilad ar gyfer ysgol gynradd newydd ar safle disgyblion iau Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig ar Stryd Pwyllgath, Bryn Cynffig, Pen-y-bont ar Ogwr, CF33 6ET;**
- **cynyddu maint yr ysgol i greu mynediad 2 ddosbarth (hynny yw, 420 o leoedd) ynghyd â meithrinfa i 75 o blant; a**
- **dod â'r drefn bresennol o ddefnyddio dau safle i ben fel bod y disgyblion babanod yn symud i'r adeilad newydd.**

Yn unol â gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018, cynhaliwyd ymgynghoriad ag ymgynghoreion penodedig ac eraill a oedd â diddordeb, a hynny rhwng 22 Tachwedd 2021 a 7 Ionawr 2022. Nod yr ymgynghoriad oedd rhoi gwybod i'r ymgynghoreion am y cynnig. Ym mis Chwefror 2022, cafodd y Cabinet wybod am ganlyniad yr ymgynghoriad a chyhoeddwyd adroddiad ar yr ymgynghoriad ar wefan y Cyngor. Roedd yr adroddiad yn rhoi trosolwg o'r adborth a gafwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac roedd yn amlinellu ymateb y Cyngor i unrhyw faterion a godwyd.

Ym mis Chwefror 2022, yn dilyn trafodaeth ar adroddiad yr ymgynghoriad, cafwyd cymeradwyaeth y Cabinet i fwrw ymlaen â'r cynnig drwy gyhoeddi hysbysiad cyhoeddus statudol. Cyhoeddwyd yr hysbysiad hwn ar 7 Mawrth 2022, am 28 diwrnod, a chafodd yr ymgynghoreion wybod amdano. Yn ôl Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018, rhaid sicrhau bod unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu cynnig yn ymwneud â threfniadaeth ysgol yn cael cyfle i wneud hynny. Er mwyn iddo gael ei ystyried yn statudol, rhaid i'r gwrthwynebiad gael ei anfon at y cynigydd, yn ysgrifenedig drwy lythyr neu drwy'r e-bost, cyn pen diwedd y cyfnod o 28 diwrnod gan ddechrau o'r diwrnod y

cyhoeddwyd yr hysbysiad (hwn yw'r "cyfnod gwrthwynebu"). Daeth un gwrthwynebiad i law yn ystod y cyfnod gwrthwynebu.
Ar 14 Mehefin 2022, trafododd Cabinet Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr y cynnig a gyhoeddwyd, y gwrthwynebiad statudol ac ymateb yr awdurdod lleol. Mae'r adroddiad ar y gwrthwynebiad ar gael i'w weld a'i lawrlwytho oddi ar wefan y Cyngor:

https://www.bridgend.gov.uk/media/14105/ysgol-gynradd-mynydd-cynffig-adroddiad-am-wrthwynebiad.pdf

Mae Adroddiad y Cabinet ar gael fel copi caled neu ar fformatau eraill ar gael ar gan:

Swyddog Cyswllt: Cyfarwyddwr Addysg a Chymorth i Deuluoedd (Uned Gymorth y Gyfarwyddiaeth)
Ffôn: (01656) 643643
E-bost: edsu@bridgend.gov.uk
Cyfeiriad post Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Swyddfeydd Dinesig
Stryd yr Angel
Pen-y-bont ar Ogwr,
CF31 4WB

Bydd y trefniadau presennol, sef bod â dau safle gwahanol ar gyfer y babanod a'r disgyblion iau, yn dod i ben o dan y cynnig a bydd y babanod yn symud i adeilad yr ysgol gynradd newydd ar safle presennol disgyblion iau Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig ar Stryd Pwyllgath, Bryn Cynffig, Pen-y-bont ar Ogwr, CF33 6ET, a hynny ddechrau mis Medi 2025. Bydd lle i 420 o ddysgwyr yn yr ysgol newydd (hynny yw, mynediad 2 ddosbarth (amser llawn) i ddisgyblion 4-11 oed a lle i 75 o blant meithrin (FTE).

Wrth benderfynu ar y cynnig, roedd y Cabinet yn fodlon y bydd y cynnig yn:

- galluogi'r Cyngor i gydymffurfio â'r gofynion deddfwriaethol i gyflawni ei ddyletswydd i sicrhau addysg effeithlon yn yr ardal hon;
- datrys y broblem gorlenwi bresennnol yng Nghyfnod Allweddol 2;
- cael gwared ar y trefniant presennol lle mae'r ysgol wedi'i rhannu rhwng dau safle;
- creu digon o le i'r holl ddisgyblion (mae'r rhan helaeth o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn cael eu dysgu mewn ystafelloedd dosbarth dros dro);
- ymdrin â'r gwaith cynnal a chadw sydd wedi ôl-gronni a'r gwaith o wella cyflwr yr adeilad; a
- creu amgylcheddau arloesol a chreadigol y gellir eu haddasu wrth i sefyllfaoedd newid ac a fydd yn gallu helpu'r disgyblion i gyrraedd eu potensial llawn.

Dyma'r rhesymau dros y penderfyniad mewn perthynas â'r ffactorau a amlinellir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion:

Ansawdd a safonau mewn addysg

Yn ei ymateb i'r ymgynghoriad, dywedodd Estyn bod y cynnig yn gydnaws â'r pum prif egwyddor sy'n ffurfio rhan o'r fframwaith trefniadaeth ysgolion yn awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'r prif egwyddorion hyn yn sail i drefniadaeth yr awdurdod lleol a'r broses o'u moderneiddio. Mae'r cynigion yn debygol o gynnal safonau'r ddarpariaeth addysg yn yr ardal ac yn debygol o wella'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion y Cyfnod Sylfaen.

Mae'r cynnig yn dangos yn glir fod yr awdurdod lleol wedi ystyried effaith y newidiadau arfaethedig ar ansawdd a safonau addysg yn yr ysgol. Mae'n rhoi braslun o'r manteision sydd ynghlwm wrth ddod â'r adran babanod a'r adran iau ynghyd ar un safle. Byddai'r disgyblion a'r staff yn elwa o gael cyfleusterau newydd sbon a fydd wedi'u cynllunio i hwyluso dysgu ac addysgu. Nodwyd bod hyn yn arbennig o arwyddocaol ar gyfer disgyblion y Cyfnod Sylfaen a fyddai'n cael darpariaeth fwy addas. Mae'r cynnig hefyd yn cyfeirio at y posibilrwydd o gynnwys cyfleusterau cymunedol yn yr adeilad newydd.

Mae'r cynnig yn cyfeirio at effaith datblygu'r ysgol ar ddeilliannau'r disgyblion a daw i'r casgliad bod y newidiadau arfaethedig yn debygol o effeithio er gwell ar ansawdd a safonau.

Bydd yr ysgol newydd yn rhan o raglen 'Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu' a bydd yn creu profiadau dysgu ac addysgu arwyddocaol i'r disgyblion, y staff a'r gymuned a hynny mewn canolfan fodern, bwrpasol. Mae tystiolaeth yn dangos bod ysgolion a adeiladwyd o'r newydd yn cael effaith gadarnhaol ar safonau ac ansawdd yr addysgu a hefyd yn gwella lles disgyblion.

Drwy ddod â'r adran babanod a'r adran iau ynghyd ar safle adran iau Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig ar Stryd Pwllygath, Bryn Cynffig, bydd cyfle gwych i gyflwyno cwricwlwm effeithiol ac i greu cyfleoedd dysgu ac addysgu gwell.

Ni chredir y bydd y cynnig yn effeithio'n anghymesur ar unrhyw nodweddion gwarchodedig. Os rywbeth, gallai'r effaith fod yn gadarnhaol o gofio y byddai'r ysgol newydd yn cael ei chynllunio i gydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 ac y byddai'n diwallu anghenion pob disgybl, aelod o staff ac ymwelydd.

Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion

Bydd adeilad newydd yr ysgol yn gallu cynnig lle i fwy o ddisgyblion, sef 420 (mynediad 2 ddosbarth FTE) (4-11 oed) ynghyd â lle i 75 o blant meithrin FTE. O dan y cynnig hwn, byddai'r trefniadau presennol lle mae'r ddwy adran wedi'u rhannu rhwng dau safle yn dod i ben a byddai'r adran babanod yn symud, gyda'r adran iau, i adeilad yr ysgol gynradd newydd ar safle presennol adran iau Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig ar Stryd Pwllygath, Bryn Cynffig. Byddai hyn yn creu digon o le ynghyd â lleoedd ychwanegol i ddysgwyr cynradd er mwyn gwasanaethu ardal dalgylch draddodiadol yr ysgol a mynd i'r afael â chyflwr yr adeilad a'r problemau gorlenwi.

Byddai adeilad newydd yr ysgol yn cael ei gynllunio'n briodol i fodloni gofynion dysgu ac addysgu yn yr unfed ganrif ar hugain.

Byddai angen adeiladu'r ysgol fesul cam i ganiatáu i'r ysgol iau barhau i weithredu yn ystod y broses adeiladu.

Yn ystod y cyfnod adeiladu, tuag at ddiwedd y contract, bydd cae bob tywydd yn cael ei adeiladu yn lle'r cae chwarae presennol yr ysgol, felly ni fyddai'r cyfleuster hwn ar gael am gyfnod cymharol fyr. Byddai angen gwneud trefniadau eraill yn ystod y cyfnod hwn.

Nid oes penderfyniad wedi'i wneud o ran sut y caiff safle presennol yr ysgol babanod ei ddefnyddio wedyn. Y Cabinet fydd yn penderfynu ynghylch hyn rywdro yn y dyfodol.

Yr effaith ar drefniadau teithio a hygyrchedd

Bydd y disgyblion yn cael cludiant am ddim yn unol â Pholisi Cludiant rhwng y Cartref a'r Ysgol/Coleg Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Ar hyn o bryd caiff cludiant am ddim ei ddarparu yn y fwrdeistref sirol i'r rhai sy'n byw dros 1.5 milltir o bellter cerdded o'r ysgol yn achos disgyblion meithrin a dros 2 filltir o bellter cerdded yn achos disgyblion cynradd.

Mae 0.4 milltir rhwng safleoedd yr ysgolion babanod ac iau. Mae hyn o fewn y trothwyon 2 filltir ac 1.5 milltir ar gyfer cludiant ysgol, felly disgwylir i'r rhai sy'n byw ar hyn o bryd yng nghyffiniau'r ysgol barhau i gerdded yno.

Mae'r Polisi Cludiant rhwng y Cartref a'r Ysgol i'w weld ar y wefan:
https://www.bridgend.gov.uk/media/5632/home-to-school-or-college-transport-policy-v2.pdf

Bydd Lôn Pwllygath yn cael ei lledu a chaiff safle casglu halogion a gwaddodion 2m ei greu ynghyd â llwybr cerdded 3.5m o led ar gyfer sgwteri a beiciau. Bydd cyfleoedd yn cael eu creu i gysylltu llwybrau teithio llesol â'r ardal ehangach.

Adnoddau addysg a goblygiadau ariannol eraill

Amcangyfrifir mai cyfanswm cost y gwaith o ddatblygu'r ysgol newydd fydd £10.2m a chaiff ei ariannu gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Dylai'r cynnig greu arbedion effeithlonrwydd . Mae'n anodd mesur faint yn union ar hyn o bryd gan y byddant yn rhan o'r dyraniad blynyddol seiliedig ar y fformiwla cyllido sy'n dibynnu'n bennaf ar arwynebedd y llawr a nifer y disgyblion.

Ni fydd y strwythur staffio yn newid fawr ddim a'r corff llywodraethu fydd yn gyfrifol amdano. Bydd yn dibynnu'n bennaf ar anghenion addysgol yr ysgol a'r gyllideb sydd ar gael.

Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb

Yn ôl yr asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb, bydd y datblygiad yn effeithio er gwell ar unigolion â nodweddion gwarchodedig yn ymwneud ag oed a rhyw. Bydd y cynnig yn helpu'r ysgol i sicrhau bod ganddi'r cyfleusterau angenrheidiol i hybu cyfle cyfartal ac i feithrin perthynas dda rhwng pobl â nodweddion gwarchodedig. Ni chanfuwyd dim effaith niweidiol ar y nodweddion

gwarchodedig a nodwyd. Drwy roi'r cynnig ar waith yn llwyddiannus, bydd yr ysgol yn cydymffurfio â'r Ddeddf Cydraddoldeb (2010), er enghraifft drwy ddarparu ysgol gwbl hygyrch a thoiledau niwtral o ran rhywedd.

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb i'w weld ar dudalen 62 (atodiad 17) o Adroddiad Ymgynghori - Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig:

https://www.bridgend.gov.uk/media/12846/mynydd-cynffig-primary-school-consultation-report.pdf

Yr effaith ar y gymuned

0.4 milltir sydd rhwng safleoedd yr ysgol babanod a'r ysgol iau. Gan hynny, ni ragwelir dim effaith niweidiol ar y gymuned. Byddai'r disgyblion yn mynychu ysgol newydd a fydd yn rhan o raglen 'Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu' ac a fydd yn cynnwys cyfleusterau cymunedol pwrpasol a fydd o fudd i'r teuluoedd lleol, y disgyblion a chlybiau lleol. Disgwylir i'r effaith fod yn gadarnhaol gan y bydd cyfleusterau modern a hygyrch ar gael i'r gymuned.

Bydd yr adeilad newydd yn cynnwys prif neuadd a stiwdio ynghyd â chegin gymunedol a bydd yr arwynebedd, at ei gilydd, yn fwy na'r ddarpariaeth bresennol. Bydd y ddarpariaeth yn golygu y bydd yr ysgol yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010, er enghraifft, gan y bydd yn adeilad cwbl hygyrch a bydd cyfleusterau niwtral o ran rhyw.

Bydd yr iard sydd cyfagos i adeilad presennol yr ysgol iau'n symud ond bydd yn dal o fewn 50m i'r ysgol.

Asesiad o'r effaith ar y Gymraeg

Mae'r awdurdod lleol wedi ymrwymo i fwrw ymlaen â chynlluniau i greu twf strategol yn y Gymraeg a, drwy gynllunio'n strategol yn effeithiol, a drwy fuddsoddi'n sylweddol yn y maes hwn, ei nod yw cyfrannu'n sylweddol at gyflawni gweledigaeth 'Cymraeg 2050' Llywodraeth Cymru i greu miliwn o siaradwyr Cymraeg ledled Cymru.

Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) presennol yr awdurdod lleol i'w weld drwy ddilyn y ddolen a ganlyn:

https://www.bridgend.gov.uk/media/4856/cynllun-strategol-cymraeg-mewn-addysg-pen-y-bont-ar-ogwr-2017-hyd-at-2020.docx

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ystyried CSCA'r awdurdod lleol ar gyfer y 10 mlynedd nesaf. Mae'r drafft i'w weld drwy ddilyn y ddolen a ganlyn:

https://www.bridgend.gov.uk/media/11822/cynllun-strategol-y-gymraeg-mewn-addysg-2022-2023.docx

Cynhaliwyd Asesiad o'r effaith ar y Gymraeg yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018 a'r casgliad oedd na fydd dim effaith sylweddol ar y ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg sydd ar gael i ddisgyblion yr ysgol ar hyn o bryd ac y byddai'r Gymraeg yn parhau i gael ei haddysgu drwy'r cwricwlwm fel y gwneir ar hyn o bryd.

Cadetiaid Awyr y Llu Awyr Brenhinol, Bryn Cynffig

Byddai'r tir lle mae adeilad y Corfflu Hyfforddiant Awyr yn dod yn rhan o safle datblygu'r ysgol. Ar hyn o bryd, nid yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn berchen ar unrhyw safle arall a fyddai'n addas i'r Corfflu. Fodd bynnag, efallai y byddai'n dymuno defnyddio'r cyfleusterau yn yr ysgol newydd ar gyfer eu gweithgareddau.

Cymdeithas Rhandiroedd Pwllygath

Byddai'r tir y mae Cymdeithas Rhanddeiliaid Pwllygath yn ei ddefnyddio'n rhan o safle datblygu'r ysgol. Bydd y rhandiroedd yn cael eu symud i dir gerllaw safle'r ysgol iau.

Bydd yr awdurdod lleol yn sicrhau nad oes 'dim niwed' i'r rhandiroedd o ganlyniad i'r datblygiad.

Mae cyfle i'r ysgol weithio gyda Chymdeithas Rhandiroedd Pwllygath i ddatblygu rhandir ar gyfer y disgyblion a chreu cyfleoedd i genedlaethau gwahanol gymryd rhan mewn gweithgareddau ar y cyd.

Mae penderfyniad y Cabinet ar 14 Mehefin 2022 yn ddarostyngedig i'r gweithdrefnau galw i mewn a nodir yn Rhan 4 o Reolau'r Gweithdrefnau yng Nghyfansoddiad y Cyngor. Yn ôl y gweithdrefnau hyn, gellir adolygu penderfyniadau a wnaed gan y Cabinet, ond nad ydynt wedi'u rhoi ar waith eto. Os bydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn cael hysbysiad galw i mewn dilys, bydd yr holl randdeiliaid yn cael eu hysbysu.

Yn gywir

Lindsay Iorwerth Harvey (Mr)
Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr